**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/3269/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

27 Hydref 2020

Annwyl Mick

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") sy'n ymwneud â Rheoliadau Gwastraff a Thrwyddedu Amgylcheddol etc (Swyddogaethau a Diwygio Deddfwriaethol etc) (Ymadael â'r UE) 2020 ("y Rheoliadau") a wnaed gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros yr Amgylchedd ar 20 Hydref. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru.

Pwrpas y Rheoliadau fydd sicrhau bod deddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn parhau i ateb y diben. Er enghraifft, maent yn diweddaru cyfeiriadau mewn deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud ag Ymadael yr UE fel eu bod yn cyfeirio at Gyfarwyddebau a Rheoliadau gwastraff ac adnoddau fel y'u diwygiwyd gan Becyn Economi Gylchol yr UE. Maent yn diwygio neu'n dirymu hefyd o ran Ymadael â'r UE ddeddfwriaeth ddiweddar yr UE a ddaw'n gyfraith yr UE a ddargedwir. Yr Ysgrifennydd Gwladol a'r gweinyddiaethau datganoledig sydd bellach yn arfer pwerau'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag Erthygl 7(1) y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi gosod y memorandwm yn unol â’r gofyn o dan Reol Sefydlog (RhS) 30A. Yn fy marn i, mae’r Rheoliadau’n offeryn statudol perthnasol gan eu bod yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru sy’n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru nad yw’n ddarpariaeth gysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol, ategol nac arbed sy’n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs